Chartered Institute of Housing

# Beth mae angen i chi ei wybod am ddata tai yng Nghyfrifiad 2021



# Beth mae angen i chi ei wybod am ddata tai yng Nghyfrifiad 2021

## Cefndir

Ar 5 Ionawr 2023 cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol eu set ddata ddiweddaraf o Gyfrifiad 2021. Ffocws y set ddata hon yw Tai yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn ychwanegol at y data ar demograffeg a mudo a gyhoeddwyd ar 2 Tachwedd 2022. Ar gyfer y ddwy set ddata hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru frîff ategol sy'n edrych yn benodol ar y data ar gyfer Cymru. Rydym wedi darparu rhai o'r prif ffigurau yma gyda rhywfaint o sylwebaeth. Byddwn yn diweddaru'r briff wrth i fwy o ddata gael ei gyhoeddi.

## Mathau o Aelwydydd

Yn ôl cyfrifiad 2021 y cyfanswm nifer yr aelwydydd yng Nghymru oedd 1,347,114. Cynnydd o 44,438 (3.4%).Dyma'r mathau o aelwydydd:

- Un Person: 429,559 (31.9%)
- Dau Berson: 472,906 (35.1%)
- Tri Pherson: 212,282 (15.8%)
- Pedwar Person: 157,455 (11.7%)
- Pum Person a Mwy: 74,908 (5.6%)

## Daliadaeth tai a mathau o dai

Yng Nghymru roedd y rhan fwyaf o aelwydydd yn berchen ar eu cartref eu hunain (66.4%). Y gyfran fu'n rhentu'n breifat oedd 17% ac roedd 16.5% yn rhentu yn y sector cymdeithasol. Mae nifer yr aelwydydd sy'n rhentu yn y sector cymdeithasol wedi cynyddu 0.1% (7,000) ers 2011.

Y prif fath o gartref yng Nghymru yw tŷ neu fyngalo. Roedd 87.2% o holl aelwydydd Cymru yn byw yn y math hwn o gartref. Roedd y rhan fwyaf o aelwydydd yng Nghymru'n byw mewn eiddo tair ystafell wely.

Bydd manylion pellach am faint, math a daliadaeth eiddo'n cael eu cyhoeddi'n nes ymlaen yn 2023.

## Gorlenwi a thanfeddiannu

Yn gyffredinol, roedd 30,000 (2.2%) o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn amodau gorlawn. Roedd hyn yn ostyngiad o 8,000 ers 2011. Ac eto yng Nghaerdydd roedd y gyfradd gorlenwi bron i ddwbl hynny ar 3.9% ac yng Nghasnewydd roedd yn 3.4%.

Roedd miliwn (76.3%) o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn llety â mwy o ystafelloedd gwely nag yr oeddent eu hangen.

## Gwres canolog

Yn ôl y cyfrifiad, roedd gan 98.8% (1.3 miliwn) o aelwydydd yng Nghymru wres canolog. Y prif fath oedd nwy, sef 71.6% (965,000) o aelwydydd. Gwres canolog olew oedd y ffynhonnell wres ar gyfer 7.8% (105,000) o aelwydydd. Eto i gyd, mae cyfran uwch o aelwydydd sy'n defnyddio gwres olew yng nghefn gwlad Cymru gyda'r cyfrannau uchaf yng:

- Ngheredigion – 35.3% (11.000)
- Powys – 27.7% (17,000)
- Sir Gâr – 23.7% (19,000)
- Sir Benfro – 22.7% (13,000)

Roedd 0.5% (6,000) o gartrefi'n defnyddio gwres canolog yn gyfan gwbl o ynni adnewyddadwy gydag 1.1% (14,000) yn defnyddio o leiaf un ffynhonnell ynni adnewyddadwy.

## Ail Gartrefi a'r Iaith Gymraeg

Awgryma data o Gyfrifiad 2021 fod y defnydd o ail gartrefi ar draws Cymru ar 5.2%. Ceredigion sydd â'r gyfran uchaf o ail gartrefi, ar 10.2% ac mae 45.3% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, ar 64.4% ac mae ail gartrefi'n cyfrif am 7.5% o gartrefi yn y sir.

# Beth mae angen i chi ei wybod am ddata tai yng Nghyfrifiad 2021

## Barn CIH Cymru

Mae'r data wedi rhoi golwg cychwynnol i ni ar Aelwydydd Cymru a'r cartrefi y maent yn byw ynddynt. Cartrefi llai sy'n dominyddu, a allai gael effaith ar faint y cartrefi rydyn ni'n eu datblygu yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn fforddiadwy ar gyfer ein tenantiaid.

Nid yw'r ddaliadaeth Tai Cymdeithasol yng Nghymru wedi cynyddu cymaint â'r hyn a ddisgwyliwyd o ystyried y targed adeiladu uchelgeisiol o 12,500 y rhagorwyd arno yn nhymor diwethaf y Senedd. Efallai y rhagorir ar y targed ond y cynnydd a ddangosir rhwng cyfrifiad 2011 a chyfrifiad 2021 yw 7,000 neu 70 y flwyddyn dros ddeng mlynedd. Nid yw'r cynnydd cyfan hwn yn ddigonol i gwrdd â lefelau cynyddol o ddigartrefedd ac anfforddadwyedd y sector rhentu. Mae angen gwneud mwy o waith i weld pam bod y cynnydd yn is na'r hyn a ddisgwyliwyd. Ai achos o ddymchwel hen gartrefi a'u disodli â chartrefi newydd, gan olygu nad oes cynnydd sylweddol yn nifer y tai cymdeithasol yng Nghymru er y bodlonir targedau adeiladu cartrefi newydd?

Calonogol yw gweld y gostyngiad mewn gorlenwi yng Nghymru dros y deng mlynedd ddiwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed gan Sefydliadau Tai yng Nghymru i leihau hyn. Mae gwaith i'w wneud o hyd ond gellir gweld y cynnydd.

Gwres Canolog Nwy yw ffynhonnell wres bennaf cartrefi Cymru o hyd. Mae angen gwneud cryn dipyn i symud tuag at ffynonellau gwres adnewyddadwy os yw Llywodraeth Cymru am atal boeleri nwy newydd rhag cael eu gosod o 2030 fel rhan o'i strategaeth ddatgarboneiddio. Nid yn y Sector Cymdeithasol yn unig y mae angen y gwaith hwn o symud i ffynonellau gwres adnewyddadwy. Fel yr amlinellwyd yn ein hadroddiad ar ddatgarboneiddio'r sector preifat mae angen buddsoddiad sylweddol gan y llywodraeth hefyd i gefnogi'r sector preifat wrth ddarparu cartrefi mwy cynaliadwy ac ynni-effeithlon yng Nghymru.

Mae ail gartrefi'n dal i gael effaith arwyddocaol ar gymunedau Cymraeg eu hiaith ac rydym yn croesawu deddfwriaeth bellach a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru i ymdrin â'r mater hwn drwy bwerau trethu newydd. Ac eto fel yr amlinellwyd yn ein hymateb diweddar i'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg mae angen ail-fuddsoddi'r cyllid hwn er mwyn darparu mwy o gartrefi fforddiadwy.